# WILLIAMS, ZACHARIAH (1683 - 1755), meddyg a dyfeisydd

**Enw:** Zachariah Williams
**Dyddiad geni:** 1683
**Dyddiad marw:** 1755
**Plentyn:** Anna Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg a dyfeisydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Meddygaeth
**Awdur:** Gwyn Jones

a thad Anna Williams; Ganwyd yn Rosemarket, Sir Benfro, a bu'n dilyn ei alwedigaeth fel meddyg am beth amser yn Neheudir Cymru. Derbyniwyd ef i'r Charterhouse, Llundain, yn 1729 fel 'poor brother pensioner.' Rhydd teitlau ei lyfrau syniad am ei ddiddordebau - *The Mariner's Compass Compleated*, 1740 a 1745; *A True Narrative of certain Circumstances relating to Zachariah Williams in the Charterhouse*, 1749; a *Account of an Attempt to ascertain the Longitude at Sea by an exact Theory of the Variation of the Magnetical Needle*, 1755. Ni chafodd ddim lwc gyda'i ddarganfyddiadau a bu'n cyhuddo Samuel Molyneux o ddwyn ei gynlluniau. O fis Rhagfyr 1745 ymlaen yr oedd yn orweiddiog, a bu farw yn ddyn wedi ei siomi, 12 Gorffennaf 1755. Cymerai Samuel Johnson gryn ddiddordeb ynddo - chwilier mynegai Powell i arg. Birkbeck Hill o Boswell.

## Awdur

**Yr Athro Gwyn Jones**, (1907 - 1999)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 8238869

Wikidata: Q18917778

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu